OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 732

## Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

**Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1)—

(a) ar ôl y diffiniad o "Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008", mewnosoder—

"ystyr "y rheoliadau lles anifeiliaid" ("*the animal welfare regulations*") yw Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007(**2**)."

(b) hepgorer y diffiniad o "Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/74/EC";

(c) hepgorer y diffiniad o "rhanbarth";

(d) yn lle'r diffiniad o "rhanbarth cynhyrchu", rhodder—

"ystyr "rhanbarth cynhyrchu" ("*region of production*"), mewn perthynas ag wyau a gynhyrchir ar safle cynhyrchu yng Nghymru, ac a farchnetir gan y cynhyrchydd yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol drwy eu gwerthu o ddrws i ddrws neu mewn marchnad gyhoeddus leol, yw—

(a) yr ardal o fewn radiws o 80 cilometr o ffin y safle cynhyrchu; a

(b) unrhyw ran o Gymru sydd y tu allan i'r radiws hwnnw o 80 cilometr;";

(3) Yn lle rheoliad 13(3) rhodder—

"(3) Yr amodau yw'r amodau yn y darpariaethau a ganlyn yn Atodlen 2 i'r rheoliadau lles anifeiliaid—

(a) paragraff 2(ch) (ond nid y gofyniad nad yw clwydi i fod ag ymylon miniog a'u bod yn darparu 15cm o leiaf i bob iâr);

(b) paragraff 2(d);

(c) paragraff 5;

(d) paragraff 6(a);

(e) paragraff 7(a).".

(4) Yn lle rheoliad 14(3) rhodder—

"(3) Yr amodau yw'r amodau yn y darpariaethau a ganlyn yn Atodlen 2 i'r rheoliadau lles anifeiliaid—

(a) paragraff 2(ch) (ond nid y gofyniad nad yw clwydi i fod ag ymylon miniog a'u bod yn darparu 15cm o leiaf i bob iâr);

(b) paragraff 2(d);

(c) paragraff 5;

(**1**) O.S. 2010/1671 (Cy. 158) y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) O.S. 2007/3070 (Cy. 264), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2010/2713 (Cy. 229) ac O.S. [insert reference to The Animal Health and Welfare (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019].

(d) paragraff 6(a);

(e) paragraff 7(a).”.

(5) Yn rheoliad 19—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Caiff y swyddog awdurdodedig fynd ag unrhyw bersonau eraill y mae’n ystyried eu bod yn angenrheidiol gydag ef.”;

(b) hepgorer paragraff (14).

(6) Yn Atodlen 2, yn Rhan 2, yn y tabl—

(a) yng ngholofn 2, yn lle’r 21ain cofnod (sef y cofnod sy’n cyfateb i’r cofnod ar gyfer “Erthygl 9(1)” yng ngholofn 1) rhodder—

“Rheoliad 4 o Reoliadau Cofrestru Sefydliadau (Ieir Dodwy) (Cymru) 2004(**3**)

(b) yng ngholofn 2, yn y 26ain cofnod (sef y cofnod sy’n cyfateb i’r cofnod ar gyfer “Erthygl 12(2), y pedwerydd is-baragraff” yng ngholofn 1), yn lle “a Phennod III o Gyfarwyddeb y Cyngor 1999/74/EC” rhodder “ac Atodlen 4 i’r rheoliadau lles anifeiliaid”.

(**3**) O.S. 2004/1432 (Cy. 145), fel y’i diwygiwyd gan O.S. [insert reference to The Animal Health and Welfare (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019] ac y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.